

## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2017

*Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.*

*Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 21

Llwyddo: 4

Siom yw gorfod dweud mai pedwar ymgeisydd yn unig a lwyddodd i gynnal safon eu gwaith ar hyd y ddau ddarn, er bod mwyafrif o'r lleill o fewn cyrraedd. Rhaid pwysleisio eto, fel gynifer o weithiau yn y gorffennol, fod disgwyl i'r gwaith a gyflwynir fod yn barod i'w gyhoeddi. O ganlyniad, er bod modd maddau ambell fân lithriad – yn wir, gellid honni ei fod yn eithriadol o anodd osgoi ambell lithriad o'r fath o dan amodau arholiad – ni ellir caniatáu i ymgeisydd lwyddo os bydd unrhyw wallau pwysig yn y gwaith. Fel mae'r disgrifiad o aelodaeth gyflawn ar frig y dudalen yn nodi'n eglur, dylai'r ymgeiswyr ar y lefel hon fod yn gadarn yn eu defnydd o iaith, heb fod angen goruchwyliaeth arnynt. Yn wir, gellid disgwyl eu bod mewn sefyllfa i roi arweiniad i eraill.

Fel y disgwylid, felly, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu cadarn fel y canlynol, lle roedd ystyr y gwreiddiol yn cael ei gyfleu'n gwbl lwyddiannus:

*Be a smart shopper*

***Byddwch yn graff wrth siopa***

***Gwnewch ddewisiadau doeth wrth siopa***

*Bring your leftovers home from restaurants*

***Ar ôl ymweld â bwyty, ewch â'r bwyd sy'n weddill adre***

***Dewch â'ch sbarion adref o fwytai***

*It means that about 1 in 4 calories intended for consumption is never actually eaten*

***Mae hynny'n golygu nad ydym, mewn gwirionedd, yn bwyta un o bob pedwar calori a fwriadwyd i'w bwyta***

*Become a more mindful eater*

***Byddwch yn fwy ymwybodol o'r hyn rydych chi'n ei fwyta***

*...and become a leftovers guru*

***a dewch yn awdurdod ar fwyd dros ben***

*...shouldn't they be thrown in the bin?*

***oni ddylid eu taflu i'r bin?***

*After struggling to re-learn normal speech patterns*

***Ar ôl brwydro i ail-ddysgu patrymau lleferydd arferol***

*...the breakthrough came*

***daeth y trobwynt***

***daeth tro ar fyd***

*...reduce spasms*

***lleihau plyciau cyhyrol***

*music has been shown to reduce the amount of anaesthetic needed during operations*

***dangoswyd bod angen llai o anestetig yn ystod llawdriniaethau os caiff cerddoriaeth ei chwarae***

Gwaetha'r modd, fodd bynnag, ochr yn ochr â chyfieithu llwyddiannus, cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu anfoddhaol oedd yn dangos nad oedd yr ymgeiswyr wedi edrych yn ddigon manwl ar y gwreiddiol i ganfod yr union ystyr oedd dan sylw, e.e.:

*...shouldn't they be thrown in the bin?*

***yna mae'n rhaid eu taflu i'r bin?***

*food production and consumption systems*

***systemau cynhyrchu neu dreulio bwyd***

*...make it difficult for us to conceptualize*

***yn ei gwneud yn anodd i ni gysyniadu***

*the stroke patient who lost the ability to speak*

***y claf a gafodd strôc a gollodd y gallu i siarad***

Er bod y darnau a gyflwynir i'w cyfieithu ar y lefel hon yn amlwg yn cynnig cryn her i'r ymgeiswyr, rhaid iddynt fod yn barod i ddyfalbarhau, a pheidio â bodloni ar gyfieithiad nad yw'n gwneud cyfiawnder â'r gwreiddiol. Mae disgwyl i ymgeiswyr ar y lefel gyflawn fedru cyfleu cystrawennau cymhleth o bob math yn llwyddiannus, a hynny mewn modd sy'n swnio'n naturiol Gymreig.

Syndod oedd gweld ymgeiswyr ar y lefel hon yn gwneud gwallau megis defnyddio

***gweithdrefnau meddygol*** am *medical procedures* ('triniaethau' fuasai'r dewis priodol yma); ***cnwd grawnfwyd*** am *cereal crop* (dan ddylanwad cynnyrch yr archfarchnad, mae'n siŵr);

ac un yn cadw'r term Saesneg *multiple sclerosis* heb ei gyfieithu, sy'n ddigon teg yn yr ystyr nad oedd modd gwirio'r cyfieithiad Cymraeg safonol ar y we, ond heb gynnwys nodyn yn egluro hynny ychwaith.

Siom hefyd oedd gweld enghreifftiau o ymadroddi annaturiol megis ***pryd o fwyd mawr*** (yn hytrach na 'pryd mawr o fwyd'); ***wedi'u diwydianeiddio*** (pan oedd 'diwydiannol' yn llawn digon); a ***troi'r ffigwr hwn i galoriau*** (yn hytrach na 'troi... yn').

Cafwyd hefyd enghreifftiau o wallau gramadegol megis ***...os mae cerddoriaeth yn eich gwneud yn hapus*** (yn hytrach nag 'os yw') a nifer o wallau sillafu a threiglo, e.e.:

***cynhwysyddion***

***anrhefn***

***rhy llawn***

***ceir hefyd tystiolaeth***

Er gwaethaf y ffaith, felly, na chafwyd ymdrechion gwael gan fwyafrif yr ymgeiswyr yn y rownd hon, siom yw gorfod nodi, fel mor aml, fod pawb ond 4 ohonynt wedi methu â chynnal safon eu gwaith ar hyd yr arholiad. Er bod rhai gwallau cystrawennol o bosib yn arwydd o broblem fwy cyffredinol o dan yr wyneb, rhaid dweud bod mwyafrif y gwallau a welwyd hefyd yn rhai y disgwylid i brawfddarllen manwl gael gwared ohonynt. Y tro hwn eto, felly, fel mor aml yn y gorffennol, ochr yn ochr â llongyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, rhaid annog yr ymgeiswyr aflwyddiannus i fanteisio ar bob cyfle i hogi eu sgiliau prawfddarllen, yn fwyaf arbennig, fel nad yw gwallau esgeulus fel y rhai a nodwyd yn gallu llithro drwy'r rhwyd y tro nesaf.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 3

Llwyddo: 3

Braf iawn yw nodi bob pob un o'r tri ymgeisydd a safodd yr arholiad i'r Saesneg yn y rownd hon wedi llwyddo, ond wrth ddweud hynny, carwn ychwanegu nodyn, er gwybodaeth i'r tri, yn pwysleisio nad oedd y gwaith hwn yn berffaith. Yn wir, bu cryn drafod ar waith ymgeiswyr y rownd hon gan fod papurau'r tri, er eu bod yn cynnwys digonedd o enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a throadau ymadrodd da, hefyd yn cynnwys, fel ei gilydd, rai enghreifftiau o gyfieithu trwsgl neu wallus. Llwyddiant ffiniol a gafodd y tri yma, felly, gan i'r arholwyr benderfynu maddau'r gwallau a welwyd, a hynny am ddau reswm. Y rheswm cyntaf oedd oherwydd bod y gwaith wedi'i gyflwyno o dan amodau arholiad, ac felly teimlid mai go brin y gellid disgwyl i unrhyw ymgeisydd gyflwyno sript cwbl ddi-fai, a bod modd maddau ambell lithriad na ddisgwylid ei weld fel arall ar y lefel hon. Ochr yn ochr â hyn, yr ail reswm dros ganiatáu i'r ymgeiswyr dan sylw lwyddo oedd eu bod wedi cynnwys digon o gyfieithu cadarn i argyhoeddi'r arholwyr mai 'gwallau arholiad' oedd y diffygion a nodwyd.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y papurau:

*penderfyniad cwbl wallgof ond eofn*

***insane yet audacious decision***

*llyncodd y tsunami drefi a phentrefi arfordirol*  
***the tsunami engulfed coastal towns and villages***

*un o brif symbylwyr y byd-olwg hwn*  
***one of the main instigators of this world-view***

*fyddai'n ennill y frwydr hon maes o law*  
***would ultimately win this battle***

*i gynnal achos yr iaith*  
***uphold the cause of the language***

*llifodd y dŵr dros waliau amddiffynnol*  
***the water swept over the defensive walls***

*tystiolaeth ddiamheuol*  
***incontrovertible evidence***

*rhuthr economaidd*  
***economic boom***

Mae enghreifftiau fel y rhain yn llwyddo oherwydd eu bod yn cyfleu union ystyr y gwreiddiol, a hynny mewn modd sy'n naturiol Seisnig ac yn argyhoeddi'r darllenydd. Yn amlwg, roedd gwaith pob un o'r tri ymgeisydd yn cynnwys enghreifftiau niferus o'r math hwn o gyfieithu, ond gwaetha'r modd, cafwyd hefyd ambell fan lle nad ymddangosai fod union ystyr y gwreiddiol wedi cael ei ddadansoddi mor fanwl, e.e.:

*gan iddo dystio'n feunyddiol*  
***as he stated every day***

*heb gefnogaeth wladol*  
***without rural support (enghraifft o gamddarllen, efallai?)***

*i gynnal achos yr iaith yn y Barri*  
***maintain the case of the language in Barry***

*tai caeedig*  
***shut up houses***

P'un a yw'r rhain yn enghreifftiau o gamddarllen, o gamddehongli, neu'n syml o fethu ag ymglywed â phatrymau'r Saesneg, mae'n drueni mawr eu bod yn amharu ar lif gwaith sydd fel arall yn ddigon derbyniol, ac o ganlyniad yn gwneud yr ymgeiswyr hyn, er eu bod yn llwyddo, yn rhai ffiniol.

Wrth longyfarch y tri ar eu llwyddiant, felly, carwn eu hannog i beidio â llaesu dwylo, ond yn hytrach i barhau i fanteisio ar bob cyfle i fireinio'u crefft, fel eu bod yn medru cynnal safon eu gwaith gorau yn eu holl gyfieithiadau.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

**Fiona Gannon**  
**Mai 2017**